

Y CRIW Mentrus

Cystadleuaeth Ysgolion Cynradd



Cyfnod Allweddol 2

Gweithgaredd 4: Allwn ni gynllunio?

Amcan Dysgu

Galluogi'r disgyblion i ddatblygu sgiliau cynllunio a chyflwyno syml.

Nodweddion Entrepreneuriaeth

Cysylltiadau

- Cyflwyno
- Cyfathrebu

Trefniadaeth

- Cynllunio
- Gweledigaeth a gosod nodau

Gweithgareddau dysgu

Mae angen cynllun ar bob busnes sy'n amlinellu sut bydd y fenter yn cael ei sefydlu a'i rhedeg.

Trafodwch gyda'r disgyblion yr angen am gynllun busnes i drefnu eu prosiect menter.

Gofynnwch iddyn nhw nodi ac ystyried cwestiynau allweddol fel:

- Beth yw eu syniad menter?
- Pwy fydd yn gweithio ar eich menter?
- Pwy fydd eich cwsmeriaid?
- Pwy ydy'ch cystadleuwyr?
- Faint o arian fyddwch chi ei angen?
- Ble byddwch chi'n cael yr arian?
- Sut byddwch chi'n cadw cyfrif o'r arian?
- Faint o elw ydych chi'n meddwl byddwch chi'n ei wneud?
- Beth fyddwch chi'n gwneud gydag unrhyw elw?
- Pa help byddwch chi ei angen?
- Am faint fydd eich menter yn parhau?

Gweithgaredd 4: Allwn ni gynllunio?

Cyfnod Allweddol 2

Mewn grwpiau, mae'r disgyblion yn defnyddio'r atebion i baratoi cynllun busnes syml.

Fel arall mae'r disgyblion yn defnyddio TGCh i greu eu cynllun busnes eu hun.

Mae'n bwysig bod pawb sy'n ymwneud â sefydlu prosiect menter yn gwybod ac yn deall cynnwys eu cynllun busnes.

Bydd angen i'r disgyblion gyflwyno eu cynllun busnes i'r Pennaeth (ac o bosibl llywodraethwr) er mwyn codi cyfalaf ar gyfer eu menter.

Canlyniad dysgu

Bydd y disgyblion yn dechrau datblygu sgiliau cynllunio a chyflwyno syml.

Adnoddau mae eu hangen

- TGCh • Bwrdd gwyn rhyngweithiol

Cysylltiadau â'r cwricwlwm

1. Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd

Llythrennedd

Llafaredd ar draws y cwricwlwm

Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau;

- Siarad
- Gwranddo
- Cydweithredu a thrafod.

Ysgrifennu ar draws y cwricwlwm

- Trefnu syniadau a gwybodaeth
- Ysgrifennu'n gywir.

